

Dialysis albwmn i gynorthwyo cleifion â methiant aciwt ar yr iau

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio dialysis albwmn yn y GIG i drin pobl sydd â methiant aciwt ar yr iau. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio methiant aciwt ar yr iau na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Er nad oes unrhyw bryderon mawr ynghylch diogelwch y driniaeth hon, nid oes llawer o dystiolaeth dda o ran pa mor dda y mae'n gweithio. Os yw meddyg am ei ddefnyddio i gynorthwyo claf â methiant aciwt ar yr iau, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth. Yn ddelfrydol dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Mewn argyfwng, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi triniaeth ar unwaith, heb sicrhau caniatâd hyddysg y claf, pan fo er lles y claf.

Dylid hefyd cael trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r driniaeth hon. Efallai y bydd NICE yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

*Efallai nad dyma
fydd yr unig
driniaeth bosibl ar
gyfer methiant aciwt
ar yr iau.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch p'un a
yw'n addas i chi a
pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Dialysis albwmin i gynorthwyo cleifion â methiant aciwt ar yr iau

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'dialysis albwmin allgorfforol ar gyfer methiant aciwt ar yr iau'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Nid oes llawer o opsiynau triniaeth ar gyfer methiant aciwt ar yr iau. Maent yn cynnwys triniaeth feddygol safonol â chyffuriau a dialysis confensiynol, a thrawsblannu iau.

Gellir defnyddio dialysis i gynorthwyo claf â methiant ar yr iau nes y bydd yr iau yn ei atgyweirio'i hun neu y gellir gwneud trawsblaniad. Trosglwyddir gwaed y claf allan o'r corff i beiriant dialysis, sy'n tynnu'r tocsinau cyn dychwelyd y gwaed i'r corff. Nod dialysis albwmin yw tynnu'r tocsinau dŵr-hydawdd (tocsinau y gellir eu toddi mewn dŵr) a thocsinau sydd ynghlwm wrth albwmin ac sy'n cronni mewn achosion o fethiant ar yr iau.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Fel arfer dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i'r driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar 8 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Edrychodd un astudiaeth ar 6 astudiaeth lai yn cynnwys cyfanswm o 128 o gleifion â methiant aciwt ar yr iau. Roedd nifer y cleifion a oedd yn fyw ar ôl 30 diwrnod yn wahanol yn y grwpiau a gafodd driniaeth feddygol safonol i'r grwpiau a gafodd ddialysis albwmin, ond gallai'r gwahaniaeth hwn fod wedi digwydd ar hap.

Nododd astudiaeth o 22 o gleifion â sirosis ar yr iau bod 11 allan o 16 o gleifion a gafodd ddialysis albwmin yn fyw 6 mis yn ddiweddarach, o gymharu â 3 allan o 6 o gleifion a gafodd ddialysis confensiynol. Fodd bynnag, gallai'r gwahaniaeth hwn fod wedi digwydd ar hap.

Mewn astudiaeth o 79 o gleifion â chlefyd alcoholig aciwt ar yr iau, roedd 17 allan o 33 o gleifion a gafodd ddialysis albwmin yn fyw 3 blynedd yn ddiweddarach, o gymharu ag 8 allan o 46 o gleifion a gafodd driniaeth feddygol safonol. Nodwyd mewn astudiaeth o 159 o gleifion bod 85 allan o 113 o gleifion a gafodd ddialysis albwmin yn fyw 6 mis yn ddiweddarach, o gymharu â 28 allan o 46 o gleifion a gafodd driniaeth feddygol safonol, ond yn yr astudiaeth hon gallai'r gwahaniaeth fod wedi digwydd ar hap.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw cynorthwyo'r claf nes bod yr iau yn ei atgyweirio'i hun neu y gellir gwneud trawsblaniad.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 30 o gleifion, datblygodd 9 claf heintiau gwaed rhwng 2 a 17 diwrnod ar ôl dialysis albwmîn. Bu farw pob un o'r 9 claf.

Mewn astudiaeth arall o 2 glaf a gafodd y driniaeth, datblygodd y ddau hylif ar yr ysgyfaint, a gafodd ei drin yn llwyddiannus o fewn 24 awr. Bu farw un o'r cleifion 9 diwrnod yn ddiweddarach a bu farw'r llall 201 o ddyddiau'n ddiweddarach.

Mewn astudiaeth o 191 o gleifion a gafodd gyfanswm o 2027 o sesiynau dialysis albwmîn, nodwyd pwysedd gwaed isel yn ystod 292 o'r 2027 o sesiynau (14%). Cafwyd achosion o siwgr yn y gwaed isel a oedd angen triniaeth mewn 335 allan o'r 2027 o sesiynau (17%), pob un ymhlith cleifion â chlefyd cronig ar yr iau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod problemau posibl yn cynnwys gwaedu, heintiau, sioc a phroblemau gyda'r gwaed.

Rhagor o wybodaeth am fethiant aciwt ar yr iau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar fethiant ar yr iau a'i driniaethau, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk/Guidance/Topic

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'dialysis albwmîn allgorfforol ar gyfer methiant aciwt ar yr iau'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG202

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8085-7

N2004 1P Sept 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.